

Cofnodion cyfarfod 5/7/2018

Presennol: Y Maer Sharon Evans, Y Dirprwy Faer Eifion Roberts, Rhys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, John Caradog Williams

Cynghorydd Dilwyn Morgan, Lis Puw (*Clerc*).

1. **Croesawyd** y Cynghorwyr gan y Maer, a derbyniwyd ymddiheuriadau Dilys Evans, Eluned Jones a Carol Rowlands.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 7/6/18.

4. **Materion y Clerc:**

4.ii Cyfarwyddwyd y Clerc i ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru i ofyn i'r meinciau a brynwyd gan y Cyngor ar gais CNC cael eu gosod ar fyrder ar lwybr glan yr afon.

8. Diolchwyd i Alun Price am ei waith ymchwil ar berchnogaeth cerflun Tom Ellis yn nogfennau'r Llyfrgell Genedlaethol lle y mae tystiolaeth glir fod y cerflun wedi ei drosglwyddo ar ddiwrnod y dadorchuddio i eiddo Cyngor Dinesig Y Bala; ers hynny, yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol, mae holl eiddo Cyngor Meirionnydd a Chyngor Y Bala wedi ei drosglwyddo i Gyngor Gwynedd. Ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn gan Adrannau Eiddo a Chyfraith Cyngor Gwynedd i ohebiaeth y Clerc.

10.iii ICO - Yn dilyn galwad ffôn o swyddfa ICO ym Macclesfield, penderfynwyd gohirio talu ffi ICO nes y byddant wedi egluro'r angen yn derfynol.

14.iii Nodwyd derbyn ymateb Parc Cenedlaethol Eryri i sylwadau'r Cyngor ar gyflwr maes parcio wrth bont Mwnwgl y Llyn; cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd.

Cymeradwywyd ymateb y Clerc i gais Cyngor Cymuned Llanycil am gefnogaeth i wella diogelwch yn ardal Eglwys Llanycil.

5. **Cyngor Gwynedd:** Adroddodd Dilwyn Morgan, Cynghorydd Sir Gwynedd, iddo ymweld ag ardal Cysgod y Coleg a Blaenddol yng nghwmni'r Cynghorydd Tref lleol a chael cyfle i nodi a gweithredu ar nifer o faterion. Mae 60 o faneri yn Y Stryd Fawr a diolchodd i ddisgyblion Ysgol y Berwyn a'r Grŵp Siopau am eu cymorth, ac i'r Maer am ei chyfraniad hael. Bydd Swyddog o Gyngor Gwynedd yn ymweld ag ardal Y Parciau i geisio datrys problem yno. Trefnodd fod lloches bws wrth y Bull yn cael ei lanhau. Llongyfarchodd Cwmni Aykroyds ar ddathlu can mlynedd o fusnes yn y dref. Cyfarwyddwyd y Clerc i anfon cyfarchion y Cyngor hefyd.

6. **Toiledau Cyhoeddus:** Rhoddwyd ystyriaeth fanwl eto i'r cais i gyfrannu at gadw toiledau'r Grŵn ar agor. Nodwyd fod y Cyngor wedi dangos parodrwydd o'r cychwyn i wneud cyfraniad, ar yr amod fod safon y toiledau'n gwella. Nodwyd hefyd y bu i Gyngor Gwynedd dderbyn grant i uwchraddio toiledau, a bod toiledau'r Grŵn ar y rhestr i dderbyn yr uwchraddiad hwn. Roedd swyddogion wedi sicrhau'r Cyngor y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod gaeaf 2017-18. Nid ydyw'r gwaith wedi cael ei wneud ac nid oedd y Cynghorwyr yn hapus o'r awgrym y gellid gwneud y gwaith yn ystod Gorffennaf, adeg prysuraf y flwyddyn. Cytunwyd i ddal y taliad yn ôl hyd nes bod y gwaith uwchraddio wedi ei gwblhau.
7. **Lloches bws:** Disgwylir i'r lloches gael ei gosod yn ystod yr Haf.
8. **Materion Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau.
9. **Materion Cyllid:** Derbyniwyd gwybodaeth fanwl am y sefyllfa gyfredol a **chytunwyd i dalu** anfonebau'r mis.
10. **Partneriaeth Penllyn:** nid oedd adroddiad.
11. **Gohebiaeth**

Parc Cenedlaethol Eryri: nodwyd derbyn gwybodaeth am ddyddiadau cyfarfodydd.

Cyngor Gwynedd: nodwyd derbyn Cynllun Datblygu Gwynedd a Môn (nid yw hwn yn uniongyrchol berthnasol i ardal cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri); derbyniwyd taflenni yn holi am ofalwyr plant. Darllenwyd llythyr oddi wrth Gyngor Gwynedd yn amlinellu'r trefniadau newydd ar gyfer y gwasanaeth ieuencid; mae'r Cyngor yn cydnabod y dymuniad mewn sawl ardal i barhau'r trefniant lleol yn ogystal â mabwysiadu'r drefn newydd. Cytunwyd i ofyn a fyddai gan Partneriaeth Penllyn ddiddordeb mewn hybu'r math hwn o drefniant lleol; byddai Cyngor Tref Y Bala yn clustnodi arian wrth gefn yn y gyllideb nesaf i gefnogi hyn.

Cyfoeth Naturiol Cymru: derbyniwyd gwybodaeth am sesiwn galw-mewn ar 18/7/18 i drafod cryfhau arglawdd y llyn. Yn dilyn trafodaeth ar y mater, cytunwyd i drafod ymhellach ar ôl derbyn gwybodaeth o'r sesiwn hwnnw.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch ar ran trigolion Y Bala yn diolch i'r Cyngor ac i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am ein rhan yn sicrhau fod Llwybr y Sgotwyr ar agor i'r cyhoedd.

12. **Asedau'r Cyngor:** Diolchwyd i Carol Rowlands am ei sylwadau ar eu cyflwr.
13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref :** Dywedodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n trafod materion gweledd ar y Stryd Fawr ac wrth Ysgol y Berwyn, a materion diogelwch ar lwybr Cysgod y Coleg i Blaenddol gyda Swyddog Priffyrdd Meirionnydd.
14. Addawodd Cynghorydd Dilwyn Morgan i geisio cael mwy o finiau sbwriel gan Gyngor Gwynedd, a chytunwyd i ofyn i Parc Cenedlaethol Eryri am fin ychwanegol ar lan y llyn.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 6/9/18